# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad: Ar-lein

Dyddiad: Dydd Mawrth, 23 Ebrill 2024

Amser: 09.00 - 09.18

# Remote / Private

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Lisa Griffiths, Clerc Gweithdrefnau<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau a ganlyn:

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg: ~~Blaenoriaethau Economaidd~~ Ein dyfodol economaidd (~~30~~ 45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth: ~~Blaenoriaethau Trafnidiaeth~~ Blaenoriaethau ar gyfer Trafnidiaeth: Gwrando, partneriaeth, gwneud newid (~~30~~ 45 munud)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyflwyno cynigion i newid aelodau Llafur a Cheidwadol ar nifer o bwyllgorau, i'w hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth. Felly, cytunwyd ar y newid ychwanegol a ganlyn i agenda dydd Mawrth:

- Cynnig i ethol Aelodau i bwyllgorau (5 munud)

Gofynnodd Heledd Fychan i'r Prif Weinidog wneud datganiad llafar i egluro'r sefyllfa mewn perthynas â rhoddion i'w ymgyrch arweinyddiaeth a benthyciadau a wnaed gan Fanc Datblygu Cymru. Cydnabu y Trefnydd y cais.

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.05pm

**Dydd Mercher**

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newid a ganlyn:

- Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd (~~30~~ 10 munud)

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes y bydd hi'n cyhoeddi canlyniad y balot diweddaraf ar gyfer Bil Aelod ar ddechrau'r Cyfarfod Llawn ddydd Mercher.

Gofynnodd Heledd Fychan pam fod y ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar berfformiad Dŵr Cymru wedi'i hamserlennu am 30 munud, yn lle'r 60 munud arferol. Cadarnhaodd y Llywydd fod hyn ar gais y Pwyllgor ond y byddai hi'n ystyried ymestyn y ddadl os bydd nifer fawr o geisiadau i siarad.

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.20pm

**3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau a ganlyn i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 30 Ebrill 2024**

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod yr eitemau a ganlyn gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (30 munud):
    - Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion – cynnig 1

- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion – cynnig 2

**Dydd Mawrth 7 Mai 2024**

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio: Gweithio ar y cyd i ddarparu mwy o gartrefi fforddiadwy (30 munud)
- Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol a Chymwysterau Athrawon Addysg Bellach) (Cymru) 2024 (5 munud)
- Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024 (15 munud)

Holodd Heledd Fychan a oedd yn fwriad gan y Llywodraeth i ychwanegu busnes pellach ar gyfer yr wythnosau i ddod. Dywedodd y Trefnydd mai ei bwriad yw rhoi rhagor o fanylion yn yr amserlen yn y dyfodol.

Gofynnodd Darren Millar fod yr amseriad rhagosodedig ar gyfer datganiadau'r Llywodraeth yn cael ei ddychwelyd i 45 munud. Nododd y Trefnydd y cais a chytunodd i'r newid a ganlyn ar gyfer 7 Mai:

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio: Gweithio ar y cyd i ddarparu mwy o gartrefi fforddiadwy (~~30~~ 45 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

O ganlyniad i'r ffaith nad oedd unrhyw gynigion arfaethedig wedi'u cyflwyno ar gyfer Dadl yr Aelod a drefnwyd ar gyfer 8 Mai, cytunwyd ar y newidiadau a ganlyn i Amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y Tair Wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 1 Mai 2024 –**

- ~~Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)~~
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl fer: Peredur Owen Griffiths AS (Dwyrain De Cymru) ~~Alun Davies AS (Blaenau Gwent)~~ (30 munud)

**Dydd Mercher 8 Mai 2024 –**

- ~~Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)~~
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer: Alun Davies AS (Blaenau Gwent) ~~Peredur Owen Griffiths MS (Dwyrain De Cymru)~~ (30 munud)

Trefnwyd yr eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 15 Mai 2024 –**

- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Heb lais: Taith menywod drwy ganser gynaecolegol. (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer: Cefin Campbell AS (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Amserlen ddiwygiedig ar gyfer Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymgynghori â'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr amserlen ddiwygiedig arfaethedig ar gyfer craffu ar y Bil, ac i ddychwelyd at y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

# 5 Gwaith Gweithdrefnol

## 5.1 Meini prawf gwneud penderfyniadau ar gyflymu'r amserlenni ar gyfer Biliau

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes feini prawf arfaethedig i helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol ar yr amserlenni ar gyfer Biliau pan ofynnir am gyfnod craffu cyflym.

Gofynnodd Darren Millar am gael cynnwys ystyriaeth ychwanegol mewn perthynas ag a oedd y Bil dan sylw yn cynnwys darpariaethau a allai fod yn ddadleuol.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ystyried yr ychwanegiad arfaethedig drwy e-bost ac, yn amodol ar ei gytuno, i fabwysiadu'r meini prawf i'w defnyddio yn y dyfodol pan fyddai'n cael ceisiadau i gytuno ar amserlen gyflym ar gyfer craffu ar Fil.